# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

**CC(3)-08-07 (p1): 28 Tachwedd 2007**

## Papur tystiolaeth – Y Gyfarwyddiaeth Dai Dyraniadau'r Gyllideb Drafft ar gyfer 2008-09, 2009-10 a 2010-11.

### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllideb y rhaglen yn y dyfodol i'r Gyfarwyddiaeth Dai fel yr amlinellwyd yng nghyhoeddiad y gyllideb ddrafft gan y Gweinidog dros Gyllid ar 5 Tachwedd 2007. Mae'n amlinellu'r meysydd hynny sydd o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, sef tai yn benodol..

### 2. Cefndir

Mae cynigion y gyllideb ddrafft wedi'u llunio yng ngoleuni setliad heriol ond rhesymol yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, sy'n rhoi cynnydd ar delerau gwirioneddol ar gyfartaledd o 1.8% dros y cyfnod tair blynedd o'i gymharu â llinell sylfaen wirioneddol 2007-08.

Mae cynigion y gyllideb ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Dai yn cynnwys dyraniad refeniw ychwanegol o £26.6m a chynnydd o ychydig yn fwy na £48 million yn y dyraniad cyfalaf net dros y cyfnod tair blynedd.

Mae'r tabl crynodeb ariannol canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol y Terfyn Gwariant Adrannol ar Dai. Nid yw'n cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol sydd y tu hwnt i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Tabl Crynodeb Ariannol:

| | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen Terfyn Gwariant Ariannol | 475,716,000 | 475,730,000 | 475,730,000 | 475,730,000 |
| Newidiadau | | 18,128,000 | 26,980,000 | 30,926,000 |
| Wedi'i ddiwygio | | 493,858,000 | 502,710,000 | 506,656,000 |

### 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Dai nifer o flaenoriaethau i'w bodloni dros y pedair blynedd nesaf. Y brif flaenoriaeth yw cyflawni ei hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un', ac rwy'n hyderus y bydd cynigion y Gyllideb Ddrafft yn ein galluogi i wneud hynny.

Mae pwysau sylweddol ar dai a bydd y pwysau'n cynyddu wrth i'n dinasyddion fynnu tai o ansawdd gwell. Bydd yn rhaid defnyddio'r adnoddau sydd eisoes wedi'u dyrannu i ni yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae hyn yn golygu ein bod yn wynebu nifer o heriau wrth i ni barhau i wneud penderfyniadau gofalus a gwybodus lle mae blaenoriaethau'n cystadlu â'i gilydd. Mae'n hynod bwysig felly ein bod yn parhau i sicrhau arbedion trwy wella effeithlonrwydd a manteisio'n llawn ar effaith ein hadnoddau.

### 4.Ymrwymiadau 'Cymru'n Un'

Mae'r dyraniadau a amlinellir isod a wnaed i'r Gyfarwyddiaeth Dai yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

£26,686,000 mewn cyfnod tair blynedd hyd at fis Mawrth 2011 uwchlaw ein llinell sylfaen gyfredol ar gyfer Cefnogi Pobl

Yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' oedd cynyddu'r cymorth sydd eisoes yn cael ei roi i'r rheini sy'n cael cymorth i fyw bywyd annibynnol drwy gyllid Cefnogi Pobl. Bydd y cyllid ychwanegol yn sicrhau bod mwy o bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn dioddef trais yn y cartref, yn dioddef problemau camddefnyddio sylweddau, neu sy'n ceisio byw bywyd annibynnol ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi yn y dyfodol yng Nghymru.

£1.5 million i helpu i gefnogi pobl i brynu ty am y tro cyntaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddatblygu'r ffrwd gyllid bwysig hon. Byddwn yn ceisio bodloni'n hymrwymiad yn ogystal â sicrhau bod blaenoriaethau eraill 'Cymru'n Un' yn cael eu hystyried.

£28.5 miliwn yn ychwanegol rhwng 2008 a 2011 er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yng Nghymru.

Ymrwymiad 'Cymru'n Un' yw darparu o leiaf 6,500 yn fwy o dai fforddiadwy dros gyfnod y weinyddiaeth.  Bydd y cynnydd yn y grant tai cymdeithasol yn gwneud cryn dipyn o ran bodloni'r targed heriol hwn.  Bydd lefel y grant hwn yn dod ag o leiaf £20.6m ychwanegol mewn cyllid preifat y bydd cymdeithasau tai sy'n ei dderbyn yn ei ddarparu tuag at y datblygiadau.

£300,000 mewn cyllid newydd rhwng 2008 a 2011 i gefnogi datblygiad Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol ymhellach.

Mae'r angen mwyaf acíwt am dai yn ein cymunedau gwledig ac mae'r cymunedau hynny yn cefnogi'r holl gefnogaeth y gellir ei darparu.  Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddatblygu'r dull 'o'r gwaelod i fyny' sy'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu tai cynaliadwy yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf.

£18 miliwn mewn cyllid newydd rhwng 2008 a 2011 i ddatblygu cartrefi nyrsio dielw ledled Cymru.

Rydym yn gwneud yr ymrwymiad hwn gan ystyried y ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio a bod prysur angen mwy o ofal nyrsio na'r cyflenwad sydd ar gael.  Drwy ymgysylltu â'r sector dielw sydd wedi llwyddo cystal yn y maes tai, rydym yn edrych ymlaen at gartrefi nyrsio cynaliadwy sy'n ymarferol o safbwynt economaidd ar gyfer y dyfodol.

## 5. Dyraniadau Eraill

£902,000 dros y tair blynedd nesaf i gynnal Asiantaethau Gofal ac Atgyweirio a £303,000 mewn grant cyfalaf ychwanegol i fodloni anghenion addasu.

Gydag asiantaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r asiantaethau Gofal ac Atgyweirio yn gwasanaethu pob person hyn ac anabl yng Nghymru.  Mae'r angen i addasu cartrefi er mwyn i bobl fyw'n fwy cyffyrddus ac yn aml yn fwy annibynnol yn hanfodol wrth ystyried yr agenda iechyd a lles ehangach.

**Jocelyn Davies AC**

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai**